**Cofnod Cyfarfod Bwrdd S4C** **Cyfarfod Rhif 450**
**17 Mehefin 2021 - Cyfarfod Zoom**

**Presennol:**

| | | |
|---|---|---|
| **Aelodau Anweithredol y Bwrdd:** | Rhodri Williams | (Cadeirydd) |
| | Anita George | (Aelod o'r Bwrdd) hyd at eitem 5 |
| | Chris Jones | (Aelod o'r Bwrdd) |
| | Denise Lewis Poulton | (Aelod o'r Bwrdd) |
| | Guto Bebb | (Aelod o'r Bwrdd) |
| | Adele Gritten | (Aelod o'r Bwrdd) |
| **Aelodau Gweithredol:** | Owen Evans | (Prif Weithredwr) |
| | Elin Morris | (Prif Swyddog Gweithredol) |
| | Amanda Rees | (Cyfarwyddwr Cynnwys) |
| **Staff S4C oedd yn bresennol:** | Gwyn Williams | (Cyfarwyddwr Cyfathrebu) |
| | Sharon Winogorski | (Prif Swyddog Cyllid) – eitemau 4,6,7 |
| | Owen Derbyshire | (Cyfarwyddwr Digidol a Marchnata) - 9 |
| | Owain Lloyd | (Ysgrifennydd y Bwrdd) |
| | Catrin Hughes Roberts | (Cyfarwyddwr Partneriaethau) eitem 10 |
| | Bethan C. Williams | (Cynorthwyydd Ysgrifennydd y Bwrdd) |
| **Hefyd yn bresennol:** | Lewis Knight | (NAO) – eitem 4 |
| | Will Legg | (NAO) – eitem 4 |
| **Ymddiheuriadau:** | Hugh Hesketh Evans | (Aelod o'r Bwrdd) |
| | Siân Lewis | (Aelod o'r Bwrdd) |

**MATERION SEFYDLOG:**

1. **Croeso a Datganiadau Diddordeb**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i gyfarfod Bwrdd Unedol S4C. Roedd wedi derbyn ymddiheuriadau gan HHE a SL.

Gofynnodd y Cadeirydd i unrhyw aelodau oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod iddynt ddatgan eu diddordeb. Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau eraill oni bai am ddatganiad RhW mewn perthynas ag Ofcom. Atgoffodd y Cadeirydd bawb at yr angen i ddiweddaru eu datganiadau diddordeb.

*Gweler y Gofrestr Diddordebau yn Adran y Bwrdd ar wefan S4C ar gyfer datganiadau cyffredinol*

2. **Adroddiad y Cadeirydd**

**[Crynodeb:** Adroddodd y Cadeirydd fod y cyfarfodydd gyda gwleidyddion wedi parhau dros gais ffi'r drwydded ac roedd trefniadau ar y gweill i gyfarfod eto gyda John Whittingdale.

Eglurodd y bydd yn annerch cynhadledd TAC eleni ac fe fydd cynrychiolwyr o TAC yn mynychu cyfarfod y Bwrdd ym mis Gorffennaf.

Nodwyd mai hwn fydd cyfarfod Bwrdd olaf SL ac OLl. Diolchodd y Bwrdd i OLl am ei waith dros y cyfnod y bu yma, gan ddymuno'n dda iddo yn ei swydd newydd. Roedd OLl yn edrych ymlaen at yr her newydd.

Nodwyd fod y DCMS wedi cytuno i hysbysebu am ddau aelod newydd i'r Bwrdd. Roedd y swydd ddisgrifiad ychydig yn wahanol y tro hwn, gan nodi dymuniad am brofiad o'r sector creadigol. Roedd angen i Swyddfa Cymru a Llywodraeth Cymru gadarnhau eu bod yn hapus gyda'r swydd ddisgrifiad. Y gobaith yw cael yr aelodau newydd yn eu lle cyn i gyfnod HHE ddod i ben.

O ran y cyfweliadau ar gyfer swydd yr Ysgrifennydd, nodwyd ei bod wedi bod yn anodd iawn sicrhau dyddiad oedd yn gyfleus i bawb ar y panel penodi. Cytunwyd y byddai'r cyfweliadau i'w cynnal ar 16 Gorffennaf.]

3. **Adroddiad y Prif Weithredwr**

Cyflwynodd OE ei adroddiad misol gan gynnwys y materion isod.

3.1 **[Crynodeb:** Nodwyd fod llawer o drafod wedi bod gyda'r DCMS o ran cais ffi'r drwydded ac am sefyllfa S4C. Nid oedd amseru unrhyw benderfyniad yn glir ar hyn o bryd ond y gobaith oedd byddai setliad arwyddol cyn yr haf.

3.2 Mewn perthynas ag ail-agor swyddfeydd, roedd OE o'r farn fod rhaid cadw golwg agos ar yr amrywiolyn delta a'r achosion oedd yn cynyddu'n sylweddol. Byddai pobl yn gallu defnyddio'r Egin ond gyda chyfyngiadau a rheolau pendant mewn lle. Adroddwyd fod y materion technegol yn iawn ar y cyfan gyda'r rhestr o eitemau yn lleihau.

3.3 Roedd arolwg staff ar Covid-19 wedi mynd allan i'r staff yn ddiweddar.

3.4 Adroddwyd fod swyddogion wedi cwrdd gyda TAC yn ddiweddar.

3.5 Gofynnwyd am sefyllfa raglenni'r Ewros a rhoddwyd amlinelliad o'r cynlluniau. Roedd gan S4C swyddog cyfryngau cymdeithasol allan yn Baku ar hyn o bryd oedd yn creu cynnwys ychwanegol.

3.6 Nododd OE y bydd papur i'w gyflwyno i'r Bwrdd fis nesaf fydd yn amlinellu camau nesaf Strategaeth 22 a chynllun prosiect ar gyfer ymgynghoriad yn yr Hydref ar bwrpas Strategaeth 22, S4C.

3.7 Nodwyd bod y mis diwethaf wedi bod yn rhagorol o ran gwobrau gyda gwobrau yn BAFTA'r DU a gwobrau Broadcast y DU.

3.8 Nodwyd fod y ffigyrau gwylio yn anwadal dros yr wythnosau diwethaf. Ychwanegodd OE fod patrwm gwylio'r holl ddarlledwyr i lawr ond bod canran gwylio S4C wedi aros yr un peth. Roedd EJ wrthi'n edrych ar hynny.

3.9 Adroddwyd ar yr arbrawf i gynnig Bocs Sets o'r Amgueddfa ar S4C Clic ac iPlayer.

3.10 O ran amlygrwydd ar setiau teledu clyfar a rhestrau gwylio, adroddodd EM fod cyswllt wedi bod gyda swyddogion Ofcom a'r DCMS.]

4. **Cyflwyniad gan yr NAO ar Archwiliad 2020-21**

Cyflwynodd LK a WL adroddiad ddiwedd blwyddyn gan NAO (yr archwilwyr allanol). Nodwyd mai prif bwrpas y cyflwyniad oedd chwilio am gymeradwyaeth i dair elfen o’r archwiliad sef:

1) Adolygu'r canfyddiadau a nodir yn yr adroddiad, gan gynnwys yr adroddiad archwilio a'r llythyr cynrychiolaeth drafft yn Atodiad 1 a 2 yn y drefn honno;

2) Ystyried a ddylid cywiro'r camddatganiadau heb eu haddasu, a nodir yn yr adran camddatganiadau a nodwyd (tudalen 11). Dylai cofnodion y Bwrdd ddarparu cymeradwyaeth ysgrifenedig o resymau rheolwyr dros beidio ag addasu camddatganiadau; ac

3) Ystyried digonolrwydd y datgeliadau busnes gweithredol sydd wedi'u cynnwys yn y datganiadau ariannol drafft ac a yw hwn yn asesiad teg. Gofynnir i’r ystyriaeth honno gael ei chynnwys yn y llythyr cynrychiolaeth i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

Cyflwynodd WL ei adroddiad, gan nodi nad oedd wedi darganfod unrhyw risgiau penodol o fewn S4C, er gwaetha’r pandemig. Roedd rheolaeth glir mewn lle gydag *adjustments* bach iawn. Roedd yn adroddiad positif iawn a diolchodd i SW a’r tîm am y cymorth a’r cydweithio.

Diolchwyd am adroddiad clir iawn oedd yn amlinellu popeth oedd angen sylw. Gofynnwyd a oedd unrhyw wersi i’w dysgu o’r archwiliad. Nododd LK efallai y dylai’r archwiliad nesaf osgoi cyfnod diwedd blwyddyn, gan fod hynny wedi rhoi cryn bwysau ar swyddogion S4C. Eglurodd SW bod archwiliadau yn y gorffennol yn cynnwys pythefnos o archwilio, wythnos o doriad, ac yna gorffen yr archwiliad yr wythnos ganlynol. Roedd hynny’n rhoi cyfle i swyddogion gywiro a gorffen eu hadroddiadau mewn da bryd. Eleni roedd cymhlethdodau Covid-19 a TAW wedi ychwanegu at y baich. Roedd yr NAO a SW yn siŵr y byddai modd trefnu amserlen well ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Y camau nesaf fydd gwirio ac adolygu’r adroddiad ar gyfer y drafft gorffenedig. Gobeithir y byddai modd arwyddo ar ddechrau Gorffennaf a’i gosod gerbron y Senedd yn fuan.

O ran ‘going concern’ gofynnwyd a oedd unrhyw faterion i’w nodi. Atebodd LK drwy ddweud taw setliad ffi’r drwydded oedd y prif beth. Nodwyd bod dim newidiadau o ran y ‘letter of representation’.

Nododd RhW fod y flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn un anodd a heriol ac felly roedd canlyniad yr archwiliad yn foddhaol iawn ac yn adlewyrchiad o waith caled SW a’r tîm. Diolchodd hefyd i’r NAO am y ffordd roedd yr archwiliad wedi cael ei gynnal.

Cymeradwywyd yr adroddiad drafft a gyflwynwyd gan yr NAO, gyda rhai mân newidiadau.

5. **Ystyried Amcanion Gweithredol 2021/22**

Cyflwynwyd yr Amcanion Gweithredol gan OE. Roedd yn gymysgedd o ‘business as usual’ a hefyd amcanion strategol megis tyfu digidol, gwaith ar gyfathrebu a marchnata, ac wrth gwrs bwrw ymlaen gyda strategaeth 22 yn sgil setliad y DCMS.

Awgrymwyd fod bwlch yn ein dealltwriaeth o'r gynulleidfa a bod angen nodi hynny'n glir yn yr amcanion. Roedd awydd hefyd i osod targedau meintiol, cerrig filltir ayyb mewn atodiad.

Gofynnwyd ynglŷn â lansiad Strategaeth 22 a'r gwaith ar bwrpas newydd S4C. Nododd OE y bydd papur i'w gyflwyno i'r Bwrdd fis nesaf fydd yn amlinellu'r camau nesaf a chynllun prosiect ar gyfer ymgynghori yn yr Hydref ar Bwrpas a Strategaeth 22 S4C. Roedd RhW yn awyddus i gyflwyno'r cyfan wrth fynd yn gyhoeddus. Cytunwyd bod hwn yn gyfle pwysig i drafod gyda'r gynulleidfa o ran ein cynlluniau. Awgrymwyd fod hefyd gyfle i'r Pwyllgor Cyfathrebu ddod â'r holl elfennau yma at ei gilydd a chwarae rôl bwysig.

**[Crynodeb:** Cymeradwywyd yr amcanion a chytunwyd y byddai swyddogion yn ystyried ychwanegu KPIs, 'deliverables' a cherrig milltir lle yn briodol.]

6. **Adroddiad Blynyddol 2020-21**

Cyflwynwyd drafft diweddar o'r adroddiad blynyddol gan OLl. Roedd yn gyfle i'r Bwrdd weld siâp yr adroddiad. Roedd angen prawf ddarllen a mireinio mewn sawl man, ynghyd â chysoni'r cyfieithiadau ac ati. Roedd y strwythur yn debyg i adroddiad 2019-20, ond roedd OLl hefyd wedi ychwanegu deunydd o adroddiad Arad am werthu Cymru i'r byd a'r agenda sgiliau a phrentisiaethau.

Roedd mwy o waith i'w wneud dros yr wythnosau nesaf a byddai OLl yn croesawu sylwadau, cywiriadau ayyb. Y cam nesaf wedyn fydd ei ddanfon at y DCMS ar gyfer cymeradwyaeth cyn i'r NAO ac OE gytuno ac arwyddo'r Adroddiad Blynyddol a'r Datganiad Ariannol. Y gobaith oedd gosod gerbron y Tŷ Cyffredin cyn toriad yr haf.

**[Crynodeb:** Awgrymwyd efallai y byddai'n syniad atgyfnerthu'r dudalen gyntaf o ran pwrpas a gweledigaeth S4C ar gyfer y dyfodol. Mynegwyd y farn fod yr adroddiad yn gydbwysedd da o ran ein cynnwys a'r ochr gorfforaethol. Diolchodd RhW i OLl a'r tîm am y gwaith.]

Cymeradwywyd y drafft o'r Adroddiad Blynyddol. Bydd fersiwn newydd yn cael ei chylchredeg maes o law.

7. **Datganiad Ariannol**

Cyflwynodd SW y ffigyrau ariannol gan nodi'r prif faterion oedd yn cynnwys: costau Covid-19; newidiadau cost yr awr; oriau'r BBC; cydleoli; costau staff ayyb.

**[Crynodeb:** O ran yr ochr fasnachol, nodwyd fod buddsoddiad Sarasin wedi perfformio'n dda yn ystod y flwyddyn. Nododd OE fod y strategaeth fuddsoddi wedi newid yn sylweddol a bod llai o risg bellach, gyda rheolau cadarn yn eu lle.

Nodwyd fod cynllun busnes Parc Tŷ Glas yn cael ei ddatblygu a bod proses ar waith i benodi cwmni allanol i ofalu am y safle. Roedd RhW yn falch o glywed fod yr ochr Masnachol wedi'i sefydlogi, a gofynnodd tybed oedd hi'n amserol i ofyn am gyflwyniad ar waith y Bwrdd Masnachol?

Holwyd os oes angen eglurhad pellach yn yr adroddiad o ran statws ac incwm y Bwrdd Masnachol. O bosib mae angen mwy o eglurhad hefyd am y cynnydd yng nghost yr awr. Cytunodd SW fod angen mynd drwy'r ddogfen a gweld os oes angen mwy o naratif i egluro'r ffigurau. Awgrymwyd y gallai'r naratif fod yn yr Adroddiad Blynyddol yn hytrach na'r Datganiad Ariannol.

Adroddodd GW y byddai cynllun cyfathrebu gyda chyfweliadau posibl ynghyd â gwaith i ddanfon copïau allan i wleidyddion gyda nodyn yn amlinellu'r prif benawdau.]

8. **Cymeradwyo Adolygiad o Ddatganiad Polisi Rhaglenni 2020-21 a Chymeradwyo Datganiad Polisi Rhaglenni 2021-22**

Cyflwynodd AR Adolygiad o Ddatganiad Polisi Rhaglenni 2020-21 a Datganiad Polisi Rhaglenni 2021-22. Eglurwyd mai adroddiadau ar gyfer Ofcom oedd y ddau a bod yr adolygiad o 2020-21 yn bwydo mewn i'r Adroddiad Blynyddol.

Cyflwynir y cynnwys fesul genre, gydag amcanion o fewn pob genre am y flwyddyn i ddod. Awgrymwyd ychwanegu ychydig mwy at yr amcan o gyrraedd cynulleidfaoedd mwy amrywiol, gan gynnwys y rhai llai rhugl a chartrefi cymysg eu hiaith.

Holwyd pa mor hyblyg yw'r amserlen a'r cynlluniau yn ystod 2021-22. Nododd AR fod angen cydbwysedd rhwng sicrwydd ymlaen llaw a chomisiynu cynnwys newydd. Roedd y mwyafrif o'r amserlen wedi'i chynllunio ar gyfer 2021-22 a'r gwariant wedi'i glustnodi. Roedd mwy o hyblygrwydd o ran 2022-23. Esboniodd hefyd bod gan bob genre gyllideb benodol.

Gofynnwyd am wariant digidol. Nododd AR nad oedd cyllidebau ar wahân ond, fel rhan o gyllidebau rhaglenni, mae arian ar gael ar gyfer pecynnau digidol a'r cyfryngau cymdeithasol. Bu newid yn y broses gomisiynu gyda gofyniad i bob cwmni gynnig cynnwys atodol digidol ac aml-blatfform.

**[Crynodeb:** Gofynnwyd am y defnydd o'r gair 'rhugl' gan gofio am gyflwyniad Jeremy Evas. Cydnabuwyd nad oedd yn rhwydd darganfod ffordd arall oedd yn cyfleu ystyr tebyg ond roedd hi'n bwysig ystyried ymhellach. Roedd y cysylltiad rhwng yr hyn y mae pobl yn adnabod fel eu gallu ieithyddol a'u hyder i ddefnyddio'r iaith yn sensitif.

Mewn perthynas â dwyieithrwydd, roedd hi'n gwestiwn diddorol o ran pa mor arbrofol dylai S4C fod. Credir bod angen trafodaeth ehangach ar y mater rhywbryd.]

Cymeradwywyd Adolygiad o Bolisi Rhaglenni 2020-21 a Datganiad Polisi Rhaglenni 2021-22, gyda rhai newidiadau i'r drafft.

9. **Ystyried Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Cyfathrebu**

Cyflwynwyd cylch gorchwyl y Pwyllgor Cyfathrebu arfaethedig gan DLP. Roedd DLP wedi trafod gyda OE ac OD dros yr wythnosau diwethaf ac wedi mireinio'r cylch gorchwyl yn sgil hynny. Rôl y Pwyllgor byddai:

- Datblygu a diweddaru Strategaeth Marchnata a Chyfathrebu S4C, gan gynnwys y strategaeth brand ac is-frandiau.

- Monitro ansawdd a pherfformiad ymgyrchoedd cyfathrebu S4C, a sicrhau safonau uchel a chysondeb ar draws y gwasanaeth.

- Casglu gwybodaeth ac ystyried tueddiadau ar draws y sector.

- Diweddaru, craffu a sicrhau priodoldeb cofrestrau risg, gan gynnwys rhoi ystyriaeth briodol i unrhyw faterion yn ymwneud â risgiau sy'n codi o'r cofrestrau.

Diolchwyd am y ddogfen. Nodwyd bod angen ychydig bach mwy o eglurder o ran y gwahaniaeth rhwng y rôl weithredol ac anweithredol. Awgrymodd bod angen addasu'r geiriad mewn ambell le i sicrhau hyn a chytunodd DLP. Roedd hefyd angen gwirio o ran ein rheolau sefydlog. Cytunodd OE gyda'r sylwadau gan nodi taw pwyllgor llywodraethiant a chraffu oedd angen. Roedd hefyd angen sicrhau fod pontio rhwng y pwyllgor hwn a'r Pwyllgor Cynnwys.

Cytunwyd ar elfennau o'r cylch gorchwyl, a nodwyd fod angen ystyried os ydy'r ddogfen yn cydymffurfio â'r Rheolau Sefydlog cyfredol. Gan gymryd hynny i ystyriaeth, bydd drafft pellach yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd ar gyfer cymeradwyaeth.

10. **Papur ar Amrywiaeth Bwrdd Unedol S4C**

Cyflwynodd OLl papur i'r Bwrdd ystyried a ddylid cymryd camau pellach i sicrhau fod mwy o gynrychiolaeth ar y Bwrdd / Pwyllgorau sy'n sicrhau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Y llwybr amlwg oedd ceisio denu ystod eang o ymgeiswyr fel rhan o broses y DCMS yn y misoedd nesaf. Opsiwn arall oedd edrych ar ffordd i gyfethol pobl i Bwyllgorau'r Bwrdd neu hyd yn oed y Bwrdd Unedol ei hun.

**[Crynodeb:** Nododd RhW fod y DCMS fel rhan o'r broses ddiwethaf wedi bod yn eithaf clir fod dymuniad i gael amrywiaeth, ond bod hynny'n digwydd ar deilyngdod.

Gofynnwyd am eglurder o beth yn union y golygir o ran amrywiaeth. Er enghraifft, *protected characteristics*, gallu o ran yr iaith Gymraeg, oedran, neu oedd amrywiaeth yn golygu popeth. Gofynnwyd hefyd am beth ddigwyddodd tro diwethaf o ran ceisio denu ymgeiswyr. Nodwyd fod swyddogion wedi trafod gyda gwahanol grwpiau i geisio denu pobl. Credai OE fod yr elfennau grwpiau cymdeithasol gwahanol yn bwysig iawn i ni ynghyd â'r hyn ystyrir yn *protected characteristics.*

Mynegwyd pryderon am y syniad o gyfethol aelodau neu gael arsylwyr ar y Bwrdd.

Credwyd bod hi'n bwysig annog pobl o gefndiroedd gwahanol i ymgeisio. Roedd gallu ieithyddol yn ffactor wrth gwrs ac roedd amrywiaeth yn hollbwysig er mwyn deall ac ymgysylltu gyda chynulleidfaoedd yn well.

Ychwanegodd CHR ei bod wedi gweithio gyda mudiadau yn y maes gan bwysleisio pwysigrwydd fod yn rhagweithiol. Roedd sgôp i weithio ar y cyd gyda sefydliadau sydd eisoes yn arbenigo ac yn gweithio yn y maes trwy fentora.

Cytunodd RhW y dylen ni fod yn rhagweithiol, a chroesawodd y ffaith fod cynnydd sylweddol o ran amrywiaeth ar y sgrin dros y flwyddyn ddiwethaf. Yr her nesaf oedd sicrhau amrywiaeth ar draws y sefydliad. Nododd AR fod y

cynnydd sydd wedi bod gyda chynnwys S4C oherwydd ein bod yn rhagweithiol.

Eglurodd RhW y broses penodi tro diwethaf a'r ffaith taw'r Ysgrifennydd Gwladol oedd yn penderfynu yn y pen draw, ond roedd yn fodlon codi'r mater gyda'r DCMS.

I grynhoi'r drafodaeth ar y papur, roedd y Bwrdd yn hoffi'r syniad o fentora ond nid aelodau cyfetholedig / arsylwyr. Cytunwyd i drafod ymhellach gyda Nia Edwards-Behi yng nghyfarfod mis Gorffennaf.]

11. **Rhaglen Waith y Bwrdd**

Cyflwynwyd copi o Raglen Waith y Bwrdd ar gyfer 2021 er gwybodaeth.

12. **Cofnodion Cyfarfod Rhif 449, 6 Mai 2021**

Cymeradwywyd y cofnodion o gyfarfod rhif 449 gynhaliwyd ar 6 Mai 2021. Ni thrafodwyd unrhyw faterion oedd yn codi o'r cofnodion.

Cyflwynwyd cofnodion o'r Pwyllgorau isod er gwybodaeth:

| | |
|---|---|
| Pwyllgor Archwilio | (cynhaliwyd 5ed Mai, 2021) |
| Pwyllgor Cynnwys | (cynhaliwyd 5ed Mai, 2021) |
| Bwrdd Masnachol | (cynhaliwyd 12fed Mai, 2021) |

13. **Cofrestr Pwyntiau Gweithredu**

Gofynnwyd i'r Aelodau Anweithredol newydd ddanfon unrhyw adborth am y sesiynau a drefnwyd at BCW, gan gynnwys unrhyw awgrymiadau ar gyfer sesiynau pellach.

14. **Unrhyw fater arall**

Nododd OE fod y Ddeddf Cyllid wedi cael cydsyniad brenhinol. Roedd hyn y golygu datrysiad o'r diwedd i'r mater TAW.